# Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

**2013 dccc 5**

*Cyflwyniad*

## 1 Trosolwg

Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf hon—

(a) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu (adran 2);

(b) yn darparu bod gweithgareddau penodol a wneir yng Nghymru at ddiben trawsblannu yn gyfreithlon os cânt eu gwneud â chydsyniad (adran 3);

(c) yn nodi sut y caiff cydsyniad ei roi i weithgareddau trawsblannu, gan gynnwys yr amgylchiadau lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig (adrannau 4 i 9);

(d) yn ei gwneud yn drosedd i weithgareddau trawsblannu gael eu cyflawni yng Nghymru heb gydsyniad (adran 10);

(e) yn gwneud diwygiadau (adrannau 15 ac 16) i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 gan gynnwys darpariaeth mewn perthynas â chod ymarfer sydd—

  (i) yn rhoi canllawiau ymarferol i bersonau sy'n cyflawni gweithgareddau trawsblannu, a

  (ii) yn gosod y safonau a ddisgwylir mewn perthynas â chyflawni'r gweithgareddau hynny, gan gynnwys sut y mae cydsyniad i'w gael.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 21(4)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Adran 1.